# Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

## Nos Fercher, 28 Tachwedd 2018 7.00 yh

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

## Rhaglen

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**2. Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2018 – ynghlwm.

Materion yn codi:

**2.1 Toiledau Cyhoeddus – Y Dreth Fusnes**

**2.2 Cynllunio Lle – Diweddariad**

**3. Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2019/20**

Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith – gweler y ddolen isod:

# Town and Community Councils Liaison Forum Meeting

## Wednesday, 28 November 2018 7.00 pm

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

## Agenda

**1. Welcome and Apologies**

**2. Minutes**

Confirmation of the minutes of the meeting held on 13 September 2018 – attached.

Matters arising:

**2.1 Public Conveniences – Business Rates**

**2.2 Place Shaping - Update**

**3. Initial Budget Proposals for 2019/20**

To consider the Executive's initial budget proposals – see link below:

Cymraeg: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/yr-her-ein-cynigion-cychwynnol-ar-gyfer-y-gyllideb-2019/20/135497.article?redirect=false

Saesneg/English: http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/consultations/the-challenge-our-initial-budget-proposals-for-2019/20/135496.article

**4. Cyfarfod nesaf**

Nodi y bwriedir cynnal cyfarfod nesaf y Fforwm ar **nos Iau, 14 Mawrth 2019 am 7.00 yh.**

**5. Unrhyw fater arall**

**4. Next meeting**

To note that the next meeting of the Forum will be held on **Thursday, 14 March 2019 at 7.00 pm.**

**5. Any other business**

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 13 Medi 2018
yn Siambr y Cyngor, Llangefni, am 7.00 yh

Yn bresennol:

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Gordon Warren | Amlwch |
| Cyng Stan Zalot | Biwmares |
| Cyng J E Lewis | Bodffordd / Llangefni |
| Cliff Everett (Clerc) | Caergybi |
| Cyng Eurfryn Davies | Cwm Cadnant |
| Cyng B Potter | Llanbadrig |
| Cyng Delyth Owen | Llanfaelog |
| Cyng Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwll |
| Cyng Einion Williams | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Cyng Margaret A Thomas | Llangefni |
| Rhys Parry (Clerc) | Llangefni / Tref Alaw |
| Cyng Ella Fisk | Porthaethwy |
| Cyng Keith Roberts | Trearddur |
| Cyng Bill Rowlands | Trearddur |
| Cyng Edna M Jones | Trewalchmai |
| Margaret Price (Clerc) | Trewalchmai |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Llinos Medi | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Cyng Ieuan Williams | Dirprwy Arweinydd |
| Cyng Carwyn Jones | Deilydd Portffolio Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau |
| Fôn Roberts | Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Llŷr ap Rhisiart | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar a Gwasanaeth Ataliol (Plant) |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

Hefyd yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Sian Purcell | Medrwn Môn |
| Jackie Lewis | Menter Môn |
| Pauline Vella | Partneriaeth BRO (ar gyfer eitem 4) |
| Llinos M Roberts | Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr (ar gyfer eitem 5) |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Cyng Geraint Bebb – Cyngor Tref Porthaethwy
Lyndsey Williams – Medrwn Môn

2. **Cofnodion**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2018 fel rhai cywir.

Yn codi:

**Eitem 2.1(a) – Toiledau Cyhoeddus – Y Dreth Fusnes**
Gofynnodd y Cynghorwyr Gordon Warren a Brian Potter am fwy o eglurder o ran rheolau hawlio rhyddhad busnesau bychan ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn gallu defnyddio disgresiwn wrth bennu taliadau'r dreth fusnes.

**Cytunwyd y dylid cynnwys eitem ar raglen cyfarfod nesaf y Fforwm**.

**Eitem 2.1(b) – Cyfyngu cyflymder y tu allan i ysgolion i 20 MYA**
Eglurodd yr Arweinydd bod arolwg cyflymder traffig wedi digwydd o flaen Ysgol Bodffordd ym mis Mai 2018, mewn ymateb i sylw'r Cyng J E Lewis ynghylch y llif traffig trwm (loriau HGV ac ati) y tu allan i'r ysgol. Canfuwyd mai 12.1% o'r cerbydau oedd yn dod o dan y categori 'Lori/HGV', sydd yn debygol o gynnwys hefyd dractorau mawr sy'n tynnu trelar.

Nodwyd bod gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor wedi rhoi gwybod am yr arolwg i Gyngor Cymuned Bodffordd a'u bod wedi dod i'r casgliad na fyddai'n ymarferol cyflwyno gorchymyn traffig yn atal pwysau cerbydau gan y byddai'n amharu ar gerbydau danfon a chasglu gwastraff lleol a bysiau. Byddai ffermwyr hefyd yn debygol o wrthwynebu.

24mya oedd y cyflymder cyfartalog drwy'r dydd, yn gostwng i 22mya yn ystod amser agor a chau'r ysgol. Mynegodd y Cynghorydd Gareth Cemlyn Jones bryder ynghylch defnyddio cyflymder cyfartalog, gan nad oedd hyn yn cofnodi faint o gerbydau unigol sydd yn goryrru.

Pwysleisiodd yr Arweinydd y dylid trafod unrhyw broblemau gyda Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PSCO).

**Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Eurfryn Davies, cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth Priffyrdd yn cynnal arolwg traffig y tu allan i Ysgol Llandegfan.**

**Eitem 2.1(c) – Siarter Cymuned ar y Cyd**
Nodwyd bod y fersiwn ddiweddaraf o'r Siarter nawr ar gael ar wefan y Cyngor.

**Eitem ychwanegol - Grid Cenedlaethol**
Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd Delyth Owen (Llanfaelog), a hynny gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Horizon.

Dywedodd Annwen Morgan bod y Grid Cenedlaethol bellach wedi cyflwyno eu cais Gorchymyn Caniatad Datblygu (DCO). Cyfeiriodd at gyflwyniad gan Dr Trefor Jones i'r Fforwm hwn ym mis Ebrill eleni ar y broses o ran Wylfa Newydd, gan nodi bod y cyflwyniad yr un mor berthnasol a defnyddiol mewn perthynas â chais y Grid Cenedlaethol. Ychwanegodd y Cynghorydd Gareth Cemlyn Jones bod y cyflwyniad hefyd yn cynnwys enghreifftiau da o geisiadau tebyg eraill.

Pwysleisiodd Annwen Morgan bwysigrwydd cymryd rhan yn y broses.

**Nodwyd y byddai cyflwyniad Dr Trefor Jones yn cael ei gylchredeg eto ac y byddai'r Cyngor yn rhoi gwybod i'r holl glercod pan fydd y cyfnod cofrestru'n cychwyn.**

**3. Cynllunio Lle**

Nodwyd, er gwybodaeth, gofnodion y gweithdy a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018.

Adroddwyd ar y sefyllfa ddiweddaraf fel a ganlyn:

**(1) TWRCELYN**
Cyfarfod cychwynnol – Neuadd Goffa Amlwch – 31 Mai 2018
Ail gyfarfod – Dinorben, Amlwch – 28 Mehefin 2018
Cyfarfod Adborth - 12 Medi 2018
Cytuno blaenoriaethau – cyfarfod i'w drefnu (ail wythnos ym mis Hydref 2018).
**Mapio**
Siop (Stryd Salem, Amlwch): 18-27 Gorffennaf 2018
Canolfan Dreftadaeth Cemaes: 16, 20, 21 Gorffennaf 2018
**Bws Horizon**
Porth Llechog - 16 Awst 2018
Rhosgoch a Rhosybol - 29 Awst 2018
Tregele - 30 Awst 2018
Penysarn – 10 Medi 2018
Tregele – 10 Medi 2018

**(2) LLIFON**
Cyfarfod cychwynnol – Cae Mwd, y Fali – 18 Mai 2018
Ail gyfarfod – Neuadd Bentref Llanfaelog – 24 Gorffennaf 2018
**Mapio**
Y Fali – 20 Medi 2018, 4-6 yh
Llanfaelog – 24 Medi 2018, 4.30-6.30 yh
Caergeiliog – 25 Medi 2018, 2-5 yh


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**(3)** **RHOSYR** – i'w gytuno

**(4)** **CANOLBARTH MÔN** – i'w gytuno

**(5)** **AETHWY** – i'w gytuno.

Estynodd Annwen Morgan ei gwerthfawrogiad i Medrwn Môn am eu cymorth a'u cydweithrediad parod i roi'r broses Cynllunio Lle ar waith.

Mynegodd y Cynghorydd J E Lewis (Canolbarth Môn) ei siom wrth ganfod bod yr amserlen a nodwyd yn y gweithdy diwethaf wedi llithro, gyda Bro Rhosyr yn cael blaenoriaeth erbyn hyn. Eglurodd Annwen Morgan bod y sefyllfa wedi newid oherwydd problemau capasiti a'i bod wedi bod yn rhy uchelgeisiol wrth bennu'r amserlen ym mis Gorffennaf. Rhoddwyd ymddiheuriad i'r Cynghorydd Lewis, gan nodi y dylai aelodau Canolbarth Môn fod wedi cael gwybod yn gynt am y llithro. Dywedodd y Cyng Einion Williams fod aelodau Bro Rhosyr yn hyblyg ac yn fodlon newid yr amserlen os byddai hynny o gymorth, ond gadawodd y penderfyniad i Medrwn Môn.

**Nodwyd y byddai'r Fforwm yn cael diweddariad pellach yn ei gyfarfod nesaf.**

## 4. Prosiect Pentrefi Carbon Isel Ynys Môn

Cafwyd cyflwyniad gan Pauline Vella, Partneriaeth BRO, i godi ymwybyddiaeth am y prosiect arfaethedig uchod. Nodau'r prosiect yw "*I weithio yn agos â chymuned leol i nodi a datblygu amrywiaeth o brosiectau amgylcheddol ac arbed carbon i leihau ei ôl troed carbon, yn ogystal â chynorthwyo trigolion y gymuned yn gymdeithasol ac yn ariannol".*

Fe benodwyd Partneriaeth BRO gan Menter Môn i gydlynu a hwyluso'r prosiect, gyda chefnogaeth arbenigol Asiantaeth Ynni Severn Wye. Cafwyd enghreifftiau o rai prosiectau tebyg gan eraill sydd eisoes yn weithredol yng Nghymru, gyda phaneli solar, cerbydau trydan neu ynni solar ayyb.

Nodwyd mai'r bwriad oedd lansio prosiect Ynys Môn yn gynnar ym mis Hydref eleni. Y cam cyntaf fydd gofyn am fynegiant o ddiddordeb gan gymunedau'r ynys. Bwriedir gwneud hyn trwy anfon negeseuon at glercod yr holl gynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol.

Yna, bydd Partneriaeth BRO yn adolygu'r ceisiadau ac yn dewis un neu ddwy gymuned ym mis Rhagfyr 2018, gyda golwg ar weithio'n ddwys gyda'r cymunedau hyn am flwyddyn.

Eglurwyd bod y prosiect yn berthnasol i adeiladau cyhoeddus ac ysgolion yn ogystal â thai preifat o fewn y cymunedau a ddewisir.

**Gofynnwyd i bawb a oedd yn bresennol ledaenu'r neges o fewn eu cymunedau, gan hyrwyddo'r buddiannau amgylcheddol ac ariannol fyddai'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y prosiect.**



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 5. Gofalwyr Ynys Môn

Cafwyd cyflwyniad gan Llinos Roberts, Prif Swyddog y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr ar rôl gofalwyr a'u hanghenion o fewn y gymuned.

Diffinnir gofalwyr fel unigolion sy'n rhoi neu'n bwriadu rhoi gofal a chefnogaeth ddi-dâl i aelod o'r teulu neu ffrind gyda chyflwr neu salwch hirdymor. Ar lefel Gogledd Cymru:

- Unigolion rhwng 50 a 64 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o ofalu.
- Mae hanner gofalwyr Gogledd Cymru yn gweithio.
- Mae 21,580 o'r 78,512 o ofalwyr yn gofalu am dros 50 awr yr wythnos.
- Mae yna dros 1000 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru

Sefydlwyd Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr Gogledd-Orllewin Cymru yn 1991, mewn ymateb i'r gwaith fwyfwy pwysig yr oedd gofalwyr yn ei wneud a'r prinder cefnogaeth oedd ar gael i ofalwyr. Dechreuodd y gwasanaeth trwy gefnogi llond llaw o ofalwyr a dros y blynyddoedd mae'r gwasanaeth wedi datblygu. Eleni yn unig, cafodd mwy na 5000 o ofalwyr gymorth gan y gwasanaeth.

Nodwyd mai un o brif heriau'r gwasanaeth yw darganfod gofalwyr cudd. Nid yw'r gofalwyr hyn yn derbyn unrhyw gymorth gan wasanaethau statudol na mudiadau gwirfoddol nac ychwaith yn derbyn unrhyw gefnogaeth arbenigol.

**Gofynnwyd i bawb a oedd yn bresennol godi ymwybyddiaeth ymysg eu cymunedau, mewn ymdrech i sicrhau bod gofalwyr yn cael y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.**

Dywedodd Cliff Everett bod Cyngor Tref Caergybi'n arfer cynnal dangosiadau preifat i wahanol grwpiau yn y sinema yng Nghaergybi a'i fod yn hapus i gynnig dangosiad o'r fath i ofalwyr Ynys Môn.

## 6. Gwasanaethau Plant y Cyngor Sir

Cafwyd cyflwyniad gan Llŷr ap Rhisiart ar strategaeth a gwasanaethau ataliol Gwasanaethau Plant y Cyngor Sir.

Er bod y Gwasanaethau Plant yn wasanaeth statudol pur i ryw raddau, eglurwyd bod angen gwneud mwy o fewn cymunedau i ymyrryd a cheisio datrys problemau yn gynnar er mwyn lleihau'r galw ar y gwasanaethau statudol.

Cafwyd amlinelliad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma o ran yr elfen gymunedol o'r strategaeth ataliol:

- Mynychu digwyddiadau yn y gymuned
- Cynllun hyb cymunedol yn ysgolion Caergybi (peilot)
- Gwaith gyda'r Heddlu ac asiantaethau allweddol eraill ar brofiadau anffafriol plentyndod


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch ymdrin â phroblemau cyffuriau ayyb o fewn grwpiau o bobl ifanc, nodwyd bod y gwasanaeth yn arfer gweithio ar y cyd gyda'r Heddlu a gwasanaethau ac asiantaethau eraill ac yn croesawu unrhyw gyfle i geisio datrys problemau yn gynnar.

**Gofynnwyd am gefnogaeth y cymunedau i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau ataliol a pharodrwydd y gwasanaeth i fod yn rhan o'r gymuned trwy osod stondinau mewn digwyddiadau ayyb.**

**7. Fforwm Sgriwtini**

Cafwyd diweddariad gan Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, ar ddatblygiadau o fewn y maes sgriwtini yn y Cyngor Sir, gan ganolbwyntio ar yr elfennau isod:

**Siwrnai Wella -** Eglurwyd bod gwaith wedi ei wneud ers rhai misoedd ar gryfhau sgriwtini o fewn y Cyngor. Mae'r gwaith hyn yn cynnwys ceisio meithrin ymagwedd Cyngor cyfan tuag at sgriwtini trwy blethu rhaglenni gwaith sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith ac adnabod effaith gwaith sgriwtini ar benderfyniadau.

**Strwythur -** Yn ogystal â'r ddau bwyllgor sgriwtini, mae 3 Panel sefydlog wedi'u creu er mwyn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Panel Cyllid
Panel Gwella Gwasanaethau Plant
Panel Safonau Addysg ac Ysgolion

Yn yr un modd â'r prif bwyllgorau sgriwtini, ffocws y Paneli yma yw dal i gyfrif ac ychwanegu gwerth.

**Rhaglenni Gwaith -** Rhoddwyd amlinelliad o'r prif feysydd y bydd y ddau bwyllgor yn canolbwyntio arnynt dros y misoedd nesaf ac eglurwyd bod y ddolen at raglenni gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini yn cael ei gylchredeg i'r holl glercod gyda'r diweddariad misol i flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith

Nodwyd bod ymgysylltu gyda chymunedau'n rhan allweddol o'r broses sgriwtini. I'r perwyl hyn bydd y Gwasanaeth Sgriwtini'n gweithio gyda Medrwn Môn, Llais Ni a phanel o ddinasyddion i edrych ar arbedion Cyllideb 2019/20 a'r Strategaeth Ddigartrefedd.

Nodwyd bod Medrwn Môn yn ceisio denu diddordeb i gymryd rhan yn y Panel Dinasyddion ac yn bwriadu cynnal sesiwn agored ar gyllideb y Cyngor nos Wener, 21 Medi, i gael trafodaeth gychwynnol.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 8. Unrhyw fater arall

### 8.1 Ffordd yr A545 rhwng Biwmares a Phorthaethwy

Cyfeiriodd y Cynghorydd Stan Zalot at broblemau traffig difrifol ym Miwmares o ganlyniad i gau'r A545 nos Fercher, 12 Medi, oherwydd difrod a achoswyd i wal a pheipen nwy gan dirlithriad. Pwysleisiodd bod angen gwella hygyrchedd rhwng Biwmares a'r A55, a hynny ar fyrder.

Ymatebodd yr Arweinydd bod y Cyngor Sir yn parhau i wneud pob dim o fewn ei allu i geisio gwella'r sefyllfa, gan gynnwys pwyso ar Lywodraeth Gymru i roi sylw i hyn.

**Cytunwyd y byddai'r Cyngor Sir yn gwahodd Cyngor Tref Biwmares i gyfarfod i drafod y mater ymhellach ac yn eu cadw'n hysbys o ran datblygiadau.**

### 8.2 Cyfraniadau Budd Cymunedol

Gofynnodd Cliff Everett am sicrhad bod Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor yn edrych i mewn i bob cyfle i ddenu cyfraniadau budd cymunedol gan ddatblygwyr cynlluniau mawr. Cafwyd cadarnhad bod hyn yn digwydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 yh.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.